**Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-09-01(p.2)**

**Dyddiad:** **Dydd Mercher 6 Mehefin 2001**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 3 Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Teitl:** **Iechyd a Lles Plant**

## Diben

1. Diweddaru'r Pwyllgor ar ddatblygiadau polisi ac arferion ym maes iechyd a lles plant a gwahodd y Pwyllgor i ddewis adran o faes iechyd plant i ganolbwyntio'n fanylach arno yn yr hydref gyda'r bwriad o ddatblygu polisi yn y maes hwnnw.

## Argymhelliad

2.Argymhellir y Pwyllgor i ystyried archwilio un o'r meysydd canlynol: iechyd plant o oedran ysgol, gwasanaethau trydyddol i blant neu anableddau ac anghenion addysgol arbennig.

## Amseru

3.Cyflwynir y papur hwn yn dilyn penderfyniad a wnaethpwyd mewn cyfarfod o lefarwyr y pleidiau ar iechyd i edrych ar faterion ym maes iechyd plant. Bydd y Pwyllgor yn dymuno penodi amser i drefnu datblygiadau polisi pellach yn y rhaglen cyfarfodydd ar ôl Hydref 2001.

## Cefndir

4. Mae "Gwell Cymru", cynllun strategol y Cynulliad Cenedlaethol yn nodi gweledigaeth tymor-hir i Gymru fel gwlad sy'n "gwerthfawrogi ei phlant ac yn lle y mae pobl ifanc yn dymuno byw ynddi, gweithio ynddi a mwynhau bywyd o safon uchel ynddi". Mae'r ddogfen ymgynghorol "Plant a Phobl Ifanc – Fframwaith ar gyfer Partneriaeth" yn nodi cynigion i wireddu dyheadau "Gwell Cymru".

5.Yn Atodiad A, sydd wedi ei amgáu, mae adolygiad o ddatblygiadau polisi ac arferion ym maes iechyd a lles plant.

## Gwaith y Pwyllgor yn y dyfodol ynghylch iechyd plant

6. Pe bai'r Pwyllgor yn dymuno neilltuo amser ar gyfer iechyd plant mae yna dri maes posibl y gallent eu hystyried ar gyfer archwiliad llawer mwy trylwyr: a) iechyd plant oedran ysgol; b) gwasanaethau trydyddol i blant;

a c) anableddau ac anghenion addysgol arbennig. Dewiswyd pob un o'r meysydd hyn yn feysydd nad

oedd y Pwyllgor wedi canolbwyntio arnynt yn y gorffennol ac maent yn feysydd lle mae angen gwneud gwaith ar y di-fwlch. Ymhelaethir ymhellach ar y maes isod.

**Iechyd plant sydd o oedran ysgol**

7.Gellir rhannu iechyd plant i ddwy adran, cyn ac ar ôl cychwyn yn yr ysgol. Dylai archwiliad o iechyd plant oedran ysgol gwmpasu'r canlynol:

- Hybu iechyd mewn ysgolion, gan gynnwys dewisiadau iachus sy'n addas ar gyfer ffyrdd o fyw (ee. Bwyta'n iach a dim ysmygu).
- Dewisiadau iachus ynghylch ymddygiad mentrus (ee. Iechyd rhywiol a chamddefnyddio sylweddau).
- Addysg Iechyd fel rhan o gwricwlwm yr ysgol.
- Ymddygiad emosiynol (Iechyd meddwl plant a phobl ifanc).
- Anafiadau damweiniol ymysg plant sydd o oedran ysgol.
- Rôl a darpariaeth y nyrsys ysgol.
- Iechyd planty gofelir amdanynt.
- Imwneiddio.
- Iechyd y genau (mae fflworideiddio yn cael ei ystyried ar wahân gan y Pwyllgor).

8. Dyma faes pwysig lle nad oes llawer o waith polisi newydd wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf yng Nghymru a lle mae yna cryn bosibilrwydd i wethio'n ddi-fwlch rhwng gwasanaethau gofal cymdeithasol, addysg ac iechyd. Mae'n debyg y bydd canlyniadau uniongyrchol yn nhermau cyfraniad at waith sy'n ymwneud ag amddifadedd cymdeithasol, cydraddoldeb mynediad a chyfle cyfartal, mynd i'r afael ag anghyfartaledd a hybu datblygu cynaliadwy. Byddai gwaith yn y maes hwn yn llenwi bwlch polisi rhwng gwasanaethau ar gyfer plant cyn iddynt gychwyn yn yr ysgol (ee, drwy Gychwyn Cadarn) a gwasanaethau ar gyfer oedolion ifanc.

**Gwasanaethau trydyddol i blant**

9. Dylai archwiliad o wasanaethau trydyddol i blant gwmpasu'r canlynol:

- Adroddiad yr Ymchwiliad reoli y gofal plant sy'n derbyn triniaethau cymhleth i'r galon yn Ysbyty Brenhinol Bryste (BRI).
- Adolygiad o'r gwasanaethau trydyddol gan Gomisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (SHSCW).
- Gwasanaethau iechyd meddwl trydyddol i blant a phobl ifanc.
- Cynigion i ddatblygu ysbyty i blant yng Nghaerdydd.

10. Dyma faterion pwysig fydd yn effeithio ar gynlluniau'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Rhagwelir y bydd yr adroddiad ar wasanaethau yn BRI yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

**Anableddau ac anghenion addysgol arbennig**

11. Mae plant sydd ag anableddau ac anghenion addysgol arbennig yn rhan o gategori plant mewn angen sydd angen gwasanaethau cydlynol. Menter yw Plant yn Gyntaf sy'n llywio gwasanaethau ar gyfer y categori hwn o blant. Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n gyfrifol am faterion megis y cwricwlwm cenedlaethol, cymwysterau, gweinyddiaeth a threfn mewn ysgolion. Serch hynny, mae gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol diddordeb sy'n gorgyffwrdd gyda'r Pwyllgor hwnnw mewn perthynas â phlant sydd ag anableddau ac anghenion addysgol arbennig ac efallai y byddai'n well pe bai gwaith yn y maes yn cael ei wneud ar y cyd gyda'r pwyllgor hwnnw. Dylai archwiliad o anableddau ac anghenion addysgol arbennig gwmpasu'r canlynol:

- Therapi iaith a lleferydd.
- Awtistiaeth a dyslecsia.
- Darpariaeth ar gyfer y rhai sy'n gorfforol anabl.
- Gwaith ar y cyd rhwng yr NHS ac awdurdodau addysg lleol
- Asesu, trin a gwerthuso canlyniadau gwasanaethau.

12. Dyma faes pwysig iawn lle mae cyswllt hanfodol rhwng gwasanaethau plant, iechyd ac addysg. Serch hynny, mae Is-bwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cabinet yn fwy tebygol o ganolbwyntio ar AAA a Phlant Mewn Angen yn y dyfodol agos. Fe allai eu gwaith fod yn sail dda i drafodaeth ddiweddarach gan y Pwyllgor ar weithredu polisi.

**Cyngor**

13. Bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried yr opsiynau ar gyfer gwneud gwaith pellach ar ddatblygu ac yn enwedig ystyried y rhinweddau o edrych, i gychwyn, ar fynd i'r afael ag anghenion iechyd plant oedran ysgol neu ar y gwasanaethau trydyddol i blant.

**Methodoleg ar gyfer cyflawni gwaith yn y dyfodol**

14. Pe bai'r Pwyllgor yn dymuno datblygu polisi mewn unrhyw un o'r meysydd iechyd plant, gellid gwneud hyn fel a ganlyn:

- Cyfarfod 1 – cadarnhau cylch gwaith, nodi tystion a gwahodd tystiolaeth ysgrifenedig
- Cyfarfod 2 a 3 – sesiynau i glywed tystiolaeth
- Cyfarfod 4 – ystyried yr adroddiad drafft

**Jane Hutt**

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Cyswllt – Peter Lawler, Iechyd Sylfaenol a Chymdeithasol 5 est. 5303